

Taflen Ffeithiau 8: Yswiriant

Cyflogi Cymorthyddion Personol

Mae gofyniad cyfreithiol arnoch chi fel unigolyn sy'n cyflogi staff i feddu ar yswiriant. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn darparu cyllid i dalu am y costau hyn a byddwn yn eich helpu â'r trefniadau.

Gall damweiniau ddigwydd mewn sawl ffordd, er enghraifft, mae'n bosibl y bydd eich cymhorthydd personol yn baglu, yn disgyn neu'n rhan o ddamwain car. Os yw'r cymhorthydd personol yn credu mai chi sydd ar fai, fe allant eich ystyried chi yn gyfrifol.

Mae'n rhaid sicrhau fod gennych chi yswiriant cyn i'ch cymhorthydd personol ddechrau gweithio:

Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr

Bydd yr yswiriant hwn yn rhoi sicrwydd i chi pe bai eich cymhorthydd personol yn cael damwain neu'n mynd yn sâl wrth, neu o ganlyniad i, weithio i chi, er enghraifft, gwenwyn bwyd.

Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

Bydd yr yswiriant hwn yn rhoi sicrwydd i chi yn erbyn difrod neu anaf a achoswyd i rywun arall gennych chi neu eich cymhorthydd personol wrth weithio i chi.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn talu am gost yr yswiriant hwn fel rhan o'ch taliad uniongyrchol ac yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i chi. Byddwch yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i drefnu a chychwyn eich yswiriant, felly peidiwch â phoeni.

Pobl sy'n Hunangyflogedig

Os yw'r unigolyn sy'n darparu eich gwasanaeth yn hunangyflogedig, mae wedi'i gadarnhau y bydd yn rhaid iddynt ddarparu eu sicrwydd yswiriant eu hunain er mwyn

cynnig eu gwasanaethau. Mae'n rhaid i chi ofyn i gael gweld copi o'r polisi cyn i chi gytuno iddynt ddarparu gofal a chymorth i chi. Ni ddylech dalu am yswiriant i rywun sy'n hunangyflogedig.

Defnyddio cerbyd

Os yw eich cymhorthydd personol yn darparu cludiant i chi yn eu cerbyd eu hunain, bydd yn rhaid iddynt sicrhau eu bod yn trefnu sicrwydd yswiriant priodol. Dylech gynghori'r cymhorthydd personol i gysylltu â'u cwmni yswiriant a gofyn am sicrwydd busnes a dangos copi o'r polisi i chi.

Os yw'r cymhorthydd personol yn gyrru eich cerbyd chi, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn eu hychwanegu i'r polisi. Nid yw'r mwyafrif o gwmnïau yswiriant yn codi tâl am y sicrwydd hwn.

Os oes arnoch chi angen rhagor o wybodaeth, cymorth neu gyngor am sicrwydd yswiriant, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol.

Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol

Rhif ffôn: 01352 701100

E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk